menter caerdydd

# Proffil Iaith Caerdydd 2015






# Cyflwyniad

Caerdydd yw Sir mwyaf Cymru gyda 400,000 o drigolion yn byw yma - 11% o'r boblogaeth. Mae'r Sir yn ardal drefol/ddinesig yn bennaf sy'n ryw 140 km sgwar.

Daeth Dinas a Sir Awdurdod Unedol Caerdydd i fodolaeth ar 1 Ebrill 1996 yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru. Mae ganddi 75 Cynghorydd etholedig.

Mae bron i 37,000 (11%) o siaradwyr Cymraeg yn byw yng Nghaerdydd. Dywed ffigurau Cyfrifiad 2011 bod 24.5% o fewn y grwp oedran 3-15, a 12.1% o fewn grwp oedran 16-24 yn siaradwyr Cymraeg.

Fel ag mewn nifer o Awdurdodau Unedol eraill yng Nghymru, mae gwahaniaeth sylweddol mewn canran siaradwyr Cymraeg o fewn y cymunedau'r ddinas. Dim ond 7.3% o'r boblogaeth yn Llanrhymni sy'n siarad Cymraeg tra bod dros 17% yn gallu siarad yr iaith yn Creigiau/Sain Ffagan a Phentyrch.



# Cynnwys

Ystadegau'r Iaith yng Nghaerdydd yn ôl Cyfrifiad 2011 .......... 4
Niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg fesul cymuned yn 2011 a 2001 .......... 6
Addysg Gymraeg yng Nghaerdydd yn 2015 .......... 7
Ysgolion Cynradd Cymraeg .......... 8
Ysgolion Uwchradd Cymraeg .......... 9
Cylchoedd Meithrin a Grwpiau Ti a Fi Caerdydd .......... 10
Darpariaeth Cymraeg i Oedolion .......... 11
Mudiadau a Chymdeithasau Cymraeg Caerdydd .......... 11
Fforwm Iaith Caerdydd .......... 13
Menter Caerdydd .......... 14
Tafwyl .......... 15
Yr Hen Lyfrgell .......... 16
Ffônlyfr .......... 16
Casgliad .......... 17

# Ystadegau'r Iaith yng Nghaerdydd yn ôl Cyfrifiad 2011

**1. Cymhariaeth bras, % pawb dros 3 oed sy'n siarad Cymraeg yn 2001 a 2011**

Yng Nghaerdydd, cynyddodd nifer y siaradwyr yn sylweddol, ond oherwydd twf poblogaeth y brifddinas ni fu ond cynydd bychan yn y ganran.

| | YN GALLU SIARAD CYMRAEG | | YN GALLU SIARAD CYMRAEG | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2001 | | 2011 | | Newid | |
| **Awdurdod Lleol** | **Niferoedd** | **Canran** | **Niferoedd** | **Canran** | **Nifer** | **Cyfran Siaradwyr** |
| Caerdydd | 32, 504 | 11% | 36, 735 | 11%.1 | +4231 | Ennill 1 i bob 7 siaradwr |
| **Cymru** | **582, 368** | **20.8** | **562, 016** | **19%** | **-20, 352** | **Colli 1 o bob 28 siaradwr** |

**2. Proffil oed siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011**


% yn gallu siarad Cymraeg yn ôl grŵp oedran, 2011

| OEDRAN | CAERDYDD | CENEDLAETHOL |
|---|---|---|
| 3-4 | 15.1 | 23.3 |
| 5-9 | 27.1 | 38.2 |
| 10-14 | 31.4 | 42.2 |
| 15-19 | 18.1 | 29.4 |
| 20-24 | 10.2 | 17.6 |
| 25-29 | 10.2 | 16.4 |
| 30-34 | 9.6 | 15.3 |
| 35-39 | 9.1 | 14.9 |
| 40-44 | 8.1 | 13.6 |
| 45-49 | 6.6 | 13.0 |
| 50-54 | 5.4 | 13.2 |
| 55-59 | 5.6 | 13.4 |
| 60-64 | 5.1 | 13.5 |
| 65-69 | 5.8 | 14.9 |
| 70-74 | 4.9 | 15.2 |
| 75-79 | 4.5 | 16.2 |
| 80+ | 4.9 | 18.4 |
| PAWB DROS 3 OED | 11.1 | 19.0 |



Mae'r siartiau canlynol yn dangos y ganran o bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2011 a 2001, yn ôl oed yng Nghaerdydd.  Oherwydd bod y cyfrifiad yn adrodd bod y ganran o blant sy'n gallu siarad Cymraeg lawer yn uwch na'r ganran gyfatebol ymhlith oedolion mewn llawer o'r awdurdodau mae pob siart yn defnyddio dwy raddfa, un i'r bobl 3 i 20 oed, ac un arall i'r rhai 21 i 79 oed, fel y gellir gweld llinellau'r cyfresi gwahanol mor glir â phosibl.

**Siarad Cymraeg yn ôl oed, fesul awdurdod lleol, yn 2011 a 2001**






# Niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg fesul cymuned yn 2001 a 2011


| CYMUNED | NIFER YN GALLU SIARAD CYMRAEG yn 2001 | CANRAN 2001 | NIFER YN GALLU SIARAD CYMRAEG yn 2011 | CANRAN 2011 |
|---|---|---|---|---|
| Adamsdown | 617 | 9.3 | 838 | 8.4 |
| Butetown | 356 | 8.3 | 928 | 9.6 |
| Caerau | 902 | 9.3 | 924 | 8.6 |
| Treganna | 1,964 | 15.6 | 2625 | 19.1 |
| Castell | 20 | 10.5 | 133 | 6.5 |
| Cathays | 1,326 | 9.8 | 1882 | 10.6 |
| Cyncoed | 1,172 | 11.6 | 1324 | 12.1 |
| Trelái | 1,372 | 9.8 | 1203 | 8.8 |
| Tyllgoed | 1,136 | 9.5 | 1221 | 9.8 |
| Gabalfa | 800 | 10.8 | 903 | 10.6 |
| Grangetown | 1,217 | 8.9 | 1867 | 10.2 |
| Y Mynydd Bychan | 1,378 | 12.1 | 1422 | 11.7 |
| Llys-faen | 325 | 10.1 | 389 | 10.7 |
| Llandaf | 1,347 | 15.4 | 1337 | 15.3 |
| Ystum Taf | 859 | 10.8 | 895 | 11.2 |
| Llanisien | 1,708 | 11.1 | 1779 | 10.6 |
| Llanrhymni | 790 | 7.3 | 791 | 7.5 |
| Pen-twyn | 1,218 | 8.7 | 1174 | 7.9 |
| Pentyrch | 1,195 | 19.6 | 1219 | 20.5 |
| Penylan | 1378 | 12.1 | 1545 | 12.7 |
| Radur a Phentre-poeth | 698 | 15.5 | 819 | 13.3 |
| Rhiwbeina | 1,409 | 12.8 | 1433 | 12.9 |
| Riverside | 1,548 | 13.4 | 1808 | 13.7 |
| Y Rhath | 1,690 | 12.1 | 1724 | 9.8 |
| Tredelerch | 733 | 8.4 | 658 | 7.7 |
| Sain Ffagan | 162 | 11.5 | 316 | 13.0 |
| Y Sblot | 1,079 | 9.4 | 1077 | 8.6 |
| Yr Eglwys Newydd | 1,797 | 13.5 | 2109 | 15.3 |
| Hen Laneirwg | 147 | 6.8 | 188 | 8.3 |
| Pontprennau | 508 | 9.5 | 770 | 11.1 |
| Tongwynlais | 226 | 12.1 | 210 | 11.7 |
| Trowbridge | 1248 | 9.0 | 1221 | 8.0 |

# Addysg Gymraeg yng Nghaerdydd yn 2015

- Nifer ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg: 14  (79 cyfrwng Saesneg)
- Nifer ysgolion dwy ffrwd (C+S): 2
- Nifer ysgolion uwchradd: 3 (17 cyfrwng Saesneg)
- Niferoedd disgyblion sector cynradd Cymraeg (& ffrydiau): 4,328 + 683 =  5,011  (cyfanswm cyfrwng Saesneg: 26,449)
- Niferoedd disgyblion sector uwchradd Cymraeg: 2,456  (cyfanswm cyfrwng Saesneg: 17,480)
- Cyfanswm: 6,784 + 683 = 7,467  (cyfanswm cyfrwng Saesneg: 43,929)

# Ysgolion Uwchradd Cymraeg

| Ysgol | Pennaeth | Rhif ffôn | Nifer Ar Y Gofrestr |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gyfun Glantaf<br>Heol y Bont, Ystum Taf, CF14 2JL | Mr A Davies | 029 20333 090 | 976 (11-16 oed)<br>300 (Chweched Dosbarth) |
| Ysgol Gyfun Plasmawr<br>Heol Pentrebane, Tyllgoed, CF5 3PZ | Mr J Hayes | 029 20405 499 | 832 (11-16 oed)<br>194 (Chweched Dosbarth) |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern<br>Llanedeyrn Road, , Cardiff, CF23 9DT | Mr Iwan Pritchard | 029 2048 9445 | 154 (11-14 oed) |



# Ysgolion Cynradd Cymraeg

| Ysgol | Pennaeth | Rhif ffôn | Nifer Ar Y Gofrestr |
|---|---|---|---|
| Ysgol Glan Ceubal<br>Colwill Road, Cardiff, CF14 2QQ | Mr A Jones | 029 2062 6650 | 41 (4-11 oed) |
| Ysgol Glan Morfa<br>Moorland Road, Cardiff, CF24 2LJ | Mrs Rh Carbis | 029 2048 3663 | 156 (4-11 oed)<br>32 (Meithrin) |
| Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof Beechley Drive, Cardiff, CF5 3SG | Mr M Hayes | 029 2056 4585 | 373 (4-11 oed) |
| Ysgol Gymraeg Bro Eirwg<br>Ridgeway Road, Cardiff, CF3 4AB | Mr I Ellis | 029 2077 7124 | 398 (4-11 oed)<br>57 (Meithrin) |
| Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd Glan-Y-Nant Road, Cardiff, CF14 1AP | Mr I James | 029 2069 1247 | 406 (4-11 oed)<br>62 (Meithrin) |
| Ysgol Gymraeg Pwll Coch, Lawrenny Avenue, Cardiff, CF11 8BR | Mrs M Howells | 029 2037 3453 | 441 (4-11 oed)<br>59 (Meithrin) |
| Ysgol Gymraeg Treganna Sanatorium Road, Cardiff, CF11 8DG | Mr Rh Harries | 029 2087 2897 | 393 (4-11 oed)<br>89 (Meithrin) |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-y-Groes<br>Bryn Celyn, Cardiff, CF23 7EH | Mrs A Fenner | 029 2073 5723 | 50 (4-11 oed)<br>20 (Meithrin) |
| Ysgol Mynydd Bychan<br>New Zealand Road, Cardiff, CF14 3BR | Miss S Evans | 029 2061 3417 | 205 (4-11 oed)<br>63 (Meithrin) |
| Ysgol Pen Y Pil,<br>Glan-Y-Mor Road, Cardiff, CF3 1RQ | Mr R Cooke | 029 2079 1255 | 109 (4-11 oed)<br>39 (Meithrin) |
| Ysgol Pencae<br>Highfields, Cardiff, CF5 2QA | Mr R Thomas | 029 2056 3851 | 201 (4-11 oed) |
| Ysgol Y Berllan Deg<br>Circle Way East, Cardiff, CF23 9LD | Ms M Phillips | 029 2073 4152 | 394 (4-11 oed)<br>61 (Meithrin) |
| Ysgol Y Wern<br>Llangranog Road, Cardiff, CF14 5BL | Ms M Kellaway | 029 2076 2114 | 432 (4-11 oed)<br>67 (Meithrin) |
| Ysgol Nant Caerau<br>Heol Caerau, Caerdydd, CF5 5QZ | Mr D Hughes | 029 2059 9469 | 141 (4-11 oed)<br>40 (Meithrin) |
| Ysgol Creigiau<br>Tregarth Court, Creigiau, CF15 9NN | Mr P Evans | 029 2089 2639 | 357 (4-11 oed)<br>63 (Meithrin) |
| Ysgol Gwaelod y Garth<br>Main Rd, Gwaelod y Garth, CF15 9HJ | Mrs J Jones | 029 2081 0489 | 226 (4-11 oed)<br>37 (Meithrin) |

# Cylchoedd Meithrin a Grwpiau Ti a Fi Caerdydd

Y Mudiad Meithrin sy'n bennaf gyfrifol am ddarparu addysg feithrin drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd. Mae gan y mudiad 14 Cylch Meithrin ac 8 Cylch Ti a Fi ar draws y Sir. Mae rhai o'r Cylchoedd yn derbyn cyfraniad gan gynllun Dechrau'n Deg sy'n ceisio hybu llythrennedd a rhifedd ymhlith plant oed meithrin sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

| Cylchoedd Meithrin |
| --- |
| Grangetown a'r Bae |
| Caerau |
| Glan Morfa |
| Y Parc x 2 |
| Trelai x 2 |
| Ty'r Cymry |
| Nant Lleucu |
| Pentrebaen |
| Yr Eglwys Newydd |
| Dechrau'n Deg Blodau Bychain |
| Cylch y Coed |
| Rhiwbeina |


| Cylchoedd Ti a Fi |
| --- |
| Grangetown a'r Bae |
| Ty'r Cymry |
| Nant Lleucu |
| Glan Ceubal |
| Cylch y Coed |
| Pili Pala |
| Creigiau |
| Rhiwbeina |

| Meithrinfeydd Preifat |
| --- |
| Miri Mawr |
| Si-Lwli |
| Pelican |
| Balwn Coch |
| Plantos |



# Darpariaeth Cymraeg i Oedolion

Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg sy'n arwain holl ddarpariaeth dysgu Cymraeg ol -16 yn y gymuned yn yr ardal. Mae'n gweithio mewn partneriaeth gyda llawer iawn o sefydliadau yn llwyddiannus iawn, megis darparwyr, ysgolion a cholegau, y mentrau, a sefydliadau Cymraeg a Chymreig er mwyn cynnig dewis eang a phrofiadau dysgu deinamig, hyblyg a chyffrous. Yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, mae'r Ganolfan yn darparu oddeutu 250 o gyrsiau ar bob lefel: o ddechreuwyr pur, i gyrsiau gwella'ch Cymraeg, hyd at gyrsiau hyfedredd. Mae cannoedd yn dysgu Cymraeg mewn gweithleoedd ar gyrsiau arbennig at ddibenion sgiliau gwaith hefyd. Ceir rhyw 2000 o ymrestriadau yn flynyddol yn yr ardal hon ac mae dosbarthiadau yn rhedeg mewn rhyw 100 o leoliadau amrywiol ar hyd a lled y ddinas a'r fro. Mae tîm dysgu proffesiynol o 55 staff sy'n arbenigo mewn dysgu Cymraeg i Oedolion. Mae hyfforddiant yn faes cenedlaethol arweiniol i'r Ganolfan ac mae'n rhedeg y cymhwyster cenedlaethol (cwrs lefel TAR) dros Gymru. Yn 2015, mae'r Ganolfan yn dathlu 40 blynedd o ddarparu'r cwrs haf i bobl o bedwar ban byd. Mae'r dathliadau hyn yn cydblethu gyda dathliadau Patagonia – 150 mlynedd ers y glaniad - mae'r Ganolfan wedi noddi ysgoloriaethau i ddysgu a thiwtora yn y Wladfa a bod yn brif bartner am flynyddoedd.



# Mudiadau a Chymdeithasau Cymraeg Caerdydd

## Urdd Gobaith Cymru

Mae'r pif swyddfa'r Urdd yng Nghaerdydd wedi'i lleoli yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd. Yn ogystal â swyddfa'r Sir, mae'r Adran Chwaraeon a rhai o staff canolog yr Eisteddfod yno hefyd. Mae gan yr Wersyll preswyl hefyd fel rhan o'r Ganolfan sy'n cynnig cyfleoedd dinesig i aelodau'r Urdd ac sy'n gweithredu fel hostel yn y ddinas i ymwelwyr.

Yn 2014-2015, mae 4,744 o aelodau yn Caerdydd a'r Fro - y sir gyda'r mwyaf o aelodau yng Nghymru gyfan.

Mae'r aelodau yn cael cyfleoedd i fynychu gwersylloedd, cymryd rhan mewn cystadlaethau Chwaraeon, mynychu teithiau a gweithgareddau hamdden a cystadlodd 4,112 o blant a phob ifanc yn Eisteddodau Caerdydd a'r Fro yn 2015.

Mae staff yr Urdd, mewn cyd-weithrediad â'r ysgolion, yn cynnal 40 o glybiau wythnosol, sy'n cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg a Di-Gymraeg, ac mae 5 adran/aelwyd gymunedol o fewn y rhanbarth yn cyfarfod yn wythnosol. Mae'r adrannau yn cynnwys disgyblion cynradd, Uwchradd, ac aelodau hŷn.

## Merched y Wawr

Mae 3 cangen o Ferched y Wawr yn y ddinas – Caerdydd,  Bro Radur a'r Garth ac 1 cangen Clwb Gwawr – Llygaid y Dydd. Mae'r 4 gangen yn paratoi amserlen fisol bob blwyddyn ac mae 165 o aelodau yn mynychu.

## Papurau Bro

Sefydlwyd 'Y Dinesydd' ym mis Ebrill 1973 ac erbyn hyn mae dosbarthiant misol o 700 papur. Mae'r pwyllgor gwirfoddol o olygyddion yn paratoi 10 rhifyn y flwyddyn. Sefydlwyd 'Pobl Caerdydd' fel platfform ar-lein o newyddion hyper-leol ym mis Mehefin 2013 mewn cydweithrediad gyda'r Dinesydd, Prifysgol Caerdydd a Menter Caerdydd. Mae Pobl Caerdydd yn cyhoeddi ar y we a thrwy'r rhwydweithiau cymdeithasol.

Mae papur bro Tafod Elai yn cael ei gyhoeddi'n fisol ac yn cynnwys newyddion am ardaloedd ar gyrion y ddinas, Creigiau, Pentyrch a Gwaelod y Garth.

# Capeli Ac Eglwysi

Capel Bethel, Rhiwbeina

Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth

Capel y Crwys, Y Rhath

Eglwys Ebeneser, Lleoliadau Amrywiol

Capel Minny St, Cathays

Eglwys Dewi Sant, Canol Caerdydd

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd, Cathays

Capel y Tabernacl, Canol Caerdydd

Capel Salem, Treganna

# Clybiau Chwaraeon

Clwb Rygbi Cymry Caerdydd

CRICC (Clwb Rygbi Ieuenctid Harlequins Caerdydd)

Cymdeithas Golff y Ddinas

Canolfan Pel-Droed Gôl

Clwb Pêl-feddal Teirw'r Taf

Clwb Pêl-Droed Cymric

Clwb Rygbi Cymry Caerdydd (Adran Iau)

Clwb Hoci Cymric

Clwb Criced Cymry Caerdydd

# Corau

Bechyn Bro Taf

Cantorion Ardwyn Caerdydd

Côr Caerdydd

Côrdydd

Aelwyd y Waun Ddyfal

Cor Meibion Taf

Côr Aelwyd Hamdden Caerdydd

Côr CF1

Côr Merched Canna



# Cymdeithasau Cymraeg

Clwb Ifor Bach

Cell Cymdeithas yr Iaith

Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Cymdeithasy Ty'r Cymry

Cymrodorion Caerdydd

Cwlwm Busnes Caerdydd

Protset Fudr

Cwmni Drama y Crwys

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Clwb y Dwrlyn

Cylch Llyfryddol Caerdydd

Cymdeithas Hanes Carnhuanawc

Cymdeithas Wyddonol Caerdydd

Clwb y Diwc

Cwpwrdd Nansi

Cwmni Drama Minny St




# Cwmnioedd Dawns

Cwmni Dawns Werin Caerdydd

Cwmni Dawns y Twrch Trwyth

# Fforwm Iaith Caerdydd

Sefydlwyd Fforwm Iaith Caerdydd yn Hydref 2005 trwy wahodd partneriaid Cymraeg y ddinas at ei gilydd. Yn wreiddiol, dim ond criw bach o 5 neu 6 oedd yn mynychu, ond erbyn hyn, mae dros 20 o gymdeithasau a sefydliadau'n cael eu cynrychioli. Mae'r Fforwm, sy'n cael ei arwain gan Fenter Caerdydd yn cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn i rhannu arfer da.

**Aelodau**

- Menter Caerdydd
- Yr Urdd
- Mudiad Ysgolion Meithrin
- TWF
- Merched y Wawr
- Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg
- Cyngor Gwirfoddol Gweithredol Caerdydd
- Llywodraeth Cymru
- Y Dinesydd
- Pobl Caerdydd
- Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Caerdydd
- Cyngor Caerdydd
- Yr Eisteddfod Genedlaethol
- Prifysgol Met Caerdydd
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Colegau Cymru
- Canolfan y Mileniwm
- Llenyddiaeth Cymru
- Chapter
- NHS Caerdydd a'r Fro
- S4C



# Menter Caerdydd

**Datganiad Cenhadaeth**

*"Hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol yn y Brif Ddinas, gan sicrhau bod yr iaith yn dod yn rhan ganolog o fywyd Caerdydd a bod pob dinesydd yn rhannu'r cyfrifoldeb am ei dyfodol a'i ffyniant"*

Sefydlwyd Menter Caerdydd yn mis Mehefin 1998 gydag 1 aelod o staff, gyda'r nod o hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng Nghaerdydd drwy greu cyfleoedd i drigolion y ddinas ddefnyddio'r iaith tu allan i oriau gwaith a muriau'r ysgol. Erbyn hyn, mae tîm o 9 o staff parhaol (6 llawn amser/ rhan-amser) o dan arweiniad Sian Lewis, y prif swyddog.

- **25, 887 o ddefnyddwyr gwasanaeth**
- **47 o ddigwyddiadau wythnosol**
- **88 o bartneriaid lleol a Chenedlaethol**
- **1, 263 o ddigwyddiadau unigol bob blwyddyn**
- **129 o staff achlysurol a 120 o wirfoddolwyr**

Mae'r Fenter yn weithgar yn y meysydd isod:

1. 20 o Glybiau wythnosol i blant drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd
2. 6 safle yn cynnig cyfleoedd Chwarae agored am ddim yn ystod cyfnodau gwyliau.
3. 2 Gynllun Gofal gwyliau drwy'r Gymraeg.
4. 70 o weithdai amrywiol i blant cynradd yn ystod gwyliau'r ysgol.
5. Pecyn dysgu anffurfiol yn cynnwys 23 cwrs wythnosol a 4 cwrs un-dydd i Oedolion
6. Gweithgareddau a chyfleoedd Cymdeithasol i Ddysgwyr.
7. Cyfleoedd Cymdeithasol i Deuluoedd gan gynnwys 12 o weithgareddau wythnosol.
8. Rhaglen Hyfforddiant 15 cwrs wedi eu archredu trwy gyfrwng y Gymraeg
9. Pecyn o deithiau haf i Wyliau a lleoliadau amrywiol ar gyfer trigolion Caerdydd gan dargedu cynulleidfa hen ac ifanc
10. Tafwyl – Gwyl Gymraeg Caerdydd (18,717 wedi mynychu yn 2014)
11. Ffônlyfr
12. Cadeirio Fforwm Iaith Caerdydd Cyswllt Cymraeg ar sawl pwyllgor yn y sector gwirfoddol, preifat a chyhoeddus
13. Prif bartner wrth sefydlu Yr Hen Lyfrgell, Canolfan Gymraeg newydd yn nghanol y ddinas.

Rydym yn gwireddu ein gwasanaethau drwy weithio mewn partneriaeth gyda nifer helaeth o fudiadau Cymraeg Caerdydd yn ogystal â phartneriaid di-Gymraeg y Ddinas. Un o brif bartneriaid Menter Caerdydd yw Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Caerdydd sydd yn gyfrifol am ariannu nifer helaeth o'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig drwy'r Gymraeg yn y Ddinas.

Mae 6,000 o drigolion Caerdydd (Siaradwyr Cymraeg a'r Di-Gymraeg) wedi cofrestru â chynllun bas data e-bost e@chlysur Menter Caerdydd. Mae'n gynllun rhad ac am ddim sy'n darparu gwybodaeth drwy e-bost ynglyn â gweithgareddau yn y brifddinas.

Mae’r Fenter yn defnyddio amryw o blatfforms cyfryngol cymdeithasol i hyrwyddo’i gwasanaethau a chyfathrebu gyda thrigolion y ddinas.

| | |
|---|---|
| E@chlysur | 6,000 o dansygrifwyr. |
| Facebook | 2,841 yn hoffi Menter Caerdydd a 2,743 yn hoffi Tafwyl |
| Twitter | 3,193 yn dilyn Menter Caerdydd a 3,402 yn dilynTafwyl |
| Instagram | 233 yn dilyn Menter Caerdydd a 248 yn dilyn Tafwyl |

## Tafwyl

Sefydlwyd Tafwyl, Gwyl Gymraeg Caerdydd, nol yn 2006 gan Fenter Caerdydd yn dilyn cyfarfod cyhoeddus a galw amlwg gan bobl Caerdydd i greu gŵyl i ddathlu’r iaith a diwylliant y brifddinas. Mae Tafwyl wedi tyfu’n flynyddol ers yr Wyl gyntaf– o 1,500 o bobl yng ngardd y Mochyn Du yn 2006 i 18,000 yn 2014.

Yn 2015, Tafwyl yw Gwyl Gymunedol fwyaf Cymru. Mae’r Wyl ei hun, sydd yn rhad ac am ddim, yn cael ei gynnal dros ddeuddydd yng Nghastell Caerdydd ar ddechrau mis Gorffennaf gan ddod â’r enwau mwyaf o fyd y Celfyddydau, diwylliant a Chwaraeon Cymru i Gaerdydd, ynghyd â bwyd a diod blasus. Mae’r wyl ‘ffrinj’ yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnos yn arwain at y prif ddigwyddiad gyda mwy o gerddoriaeth byw, llenyddiaeth, dramau, chwaraeon, digwyddiadau i ddysgwyr mewn cydweithrediad gyda 32 o bartneriaid lleol a Chenedlaethol.

Mae Tafwyl yn bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac mae’n darparu platfform i’r Gymraeg yn y brifddinas. Yn 2015, mae’r Wyl wedi denu 19 o noddwyr preifat. gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Caerdydd, Cyngor Celfydyddau Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri yw prif gyllidwyr Tafwyl a Phrifysgol Caerdydd yw’r prif noddwr.



# Yr Hen Lyfrgell

Yn yr Hydref 2015,  bydd Yr Hen Lyfrgell - canolfan Gymraeg Caerdydd, yn agor yn yr Aes.

Bydd yr Hen Lyfrgell yn bartneriaeth gydweithredol rhwng partneriaid y Gymraeg (dan arweiniad Menter Caerdydd), Amgueddfa Stori Caerdydd, Cyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru.

Y nod yw creu canolfan groesawgar yng nghalon ein prifddinas sy'n dathlu, hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg fel iaith fyw ar gyfer holl ddinasyddion Caerdydd a'i hymwelwyr.  Bydd amrywiaeth o weithgareddau a darpariaeth i ddenu pobl o bob oed a chefndir drwy'r drysau yn Gymry Cymraeg, dysgwyr a theuluoedd di-Gymraeg.

Fe fydd datblygiad Yr Hen Lyfrgell yn gyfleuster newydd amlwg yn dwyn amrywiaeth o wasanaethau at ei gilydd a dylai hynny fod yn ddeniadol i noddwyr Cymraeg eu hiaith a'r rhai nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg tra'n cadw rhai o'r gweithgareddau allweddol sydd ar hyn o bryd yn digwydd yn yr Hen Lyfrgell.

Fe fydd Yr Hen Lyfrgell yn cynnig pob cyfle i bobl o bob oedran a chefndir i ymgysylltu gyda'r Gymraeg a'i diwylliant bywiog trwy amrediad eang o weithgareddau mewn amgylchedd cyhoeddus, cyfoes a chyffrous.

Fe fydd yn cynnig amrediad o gyfleoedd lle gall pobl ddefnyddio, dysgu, ymarfer a chlywed y

Gymraeg mewn lleoliad cymdeithasol a chynhwysol.

Fe fydd yn cynnwys bar caffi gofod agored, siop, ystafelloedd dysgu, Amgueddfa Stori Caerdydd, gofod rhyngweithiol i blant a phobl ifanc, ardal arddangos a pherfformio, canolfan fusnes a chynadledda, meithrinfa a gofod at ddefnydd grwpiau cymunedol.

# Ffôn-Lyfr

Mae Menter Caerdydd yn cyhoeddi Ffônlyfr bob dwy flynedd. Mae'r ffônlyfr yn gyfeirlyfr o gysylltiadau ar gyfer unigolion a busnesau sy'n cynnig gwasanaeh Cymraeg yng Nghaerdydd. Rydym yn cynhyrchu 2,000 o lyfrynnau ac mae'r wybodaeth i gael am ddim ar ein gwefan. Mae dros XXXXX o gysylltiadau wedi'i rhannu yn ôl y categoriau canlynol -

- Addysg
- Adloniant
- Arlwyo
- Cartref
- Celf a Dylunio
- Crefydd
- Cyffredinol
- Cyfieithu
- Cyfraith
- Cylchoedd Meithrin
- Cyllid
- Gofal Plant
- Iechyd a Harddwch
- Llinellau Ffôn Gwasanaethau Cymraeg
- Priodas
- Technoleg Gwybodaeth
- Tiwtoriaid
- Ysgolion Cynradd



# Casgliad

Mae'r Gymraeg ar dwf yn ein prifddinas, mae ystadegau'r Cyfrifiad yn 2011 yn profi hynna, ac mae'r iaith i'w chlywed fwyfwy ar y stryd ac yn ein cymunedau. Mae cynnydd yn y niferoedd o blant, pobl ifanc ac Oedolion sy'n siarad a dysgu Cymraeg ac mae angen mwy o ysgolion i ateb y galw cynyddol am gyfleoedd addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y ddinas.

Nid yw'n ddigon i ni ddibynnu ar dwf mewn addysg Gymraeg yn unig wrth gyllunio dyfodol ieithyddol y ddinas. Mae angen sicrhau cyfleoedd cymdeithasol tu allan i oriau'r ysgol er mwyn i'r plant a'r bobl ifanc allu defnyddio'r Gymraeg a'i gweld hi fel iaith fyw.

Bydd agoriad Yr Hen Lyfrgell fel canolfan Gymraeg yn gam mawr ymlaen i normaleiddio'r iaith a'i gosod ochr yn ochr ag enwau brand mawr sydd eisioes yn bodoli yng nghanol y ddinas.

Mae Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen i'r Gymraeg fod yn 'iaith fyw, iaith byw', felly mae angen sicrhau statws a phroffil y Gymraeg, ar draws bob sector, drwy gyllido teg a gweledigaeth gan ein gwleidyddion a'n cynghorwyr lleol.

Mae'r proffil hwn yn ddogfen weithiol, ac fe fydd yn cael ei ddiweddaru wrth i'r gwaith a'r iaith yng Nghaerdydd ddatblygu.

